

Digimap for Schools

Mapiau Dirgel

Alan Parkinson

Adnodd uwchradd Daearyddiaeth



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r lluo o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

Teitl: Mapiau Dirgel

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Uwchradd	Defnyddio cynnwys mapiau i ddyfalu lleoliad map hen enw lle.	Rhoddir 13 lleoliad, ond gellir ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw le ym Mhrydain Fawr. Gall gynrychioli nodweddion naturiol neu nodweddion gwneud, a all fod yn berthnasol i gyd-destun ysgol.

Gwybodaeth	Archwilio lleoedd, adnabod mapiau
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Sgiliau Map, archwilio lleoedd
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Dod o hyd i leoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio atlasau a mapiau. Defnyddio mapiau, cynlluniau a TGCh i ddehongli a chyflwyno gwybodaeth leoliadol.
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Canlyniadau Astudiaethau Cymdeithasol:1.14a – 4.14a

Gweithgaredd

Arddangos mapiau o leoliad dirgel i annog myfyrwyr i ddefnyddio cliwiau yn y map ei hun i benderfynu ble yw'r lleoliad.

Cyflwyniad

Pan mae myfyrwyr yn defnyddio mapiau, yn gyffredinol, maen nhw'n chwilio am, neu'n edrych ar, fap o leoliad y maen nhw eisoes yn gyfarwydd ag ef. Mae cyflwyno map dirgel i fyfyrwyr yn eu gorfodi nhw i archwilio'r map am gliwiau yn y dirwedd a defnyddio eu gwybodaeth ddaeryddol i ddarganfod y lleoliad. Gall hyn eu helpu nhw i amlygu'r elfennau ar fapiau sy'n fwyaf defnyddiol i ddiffinio beth sy'n rhoi cymeriad i leoliad.

Yn ogystal â defnyddio'r mapiau hyn fel sylfaen i wers neu waith cartref, gellid eu defnyddio fel gweithgaredd dechrau anffurfiol dros nifer o wersi, trwy arddangos un wrth i fyfyrwyr gyrraedd y dosbarth. Mae'r gweithgaredd isod yn gofyn i fyfyrwyr greu map dirgel y gellir ei ddefnyddio i herio'r dosbarth mewn gwersi yn y dyfodol. Gall athrawon ddefnyddio'r rhain fel gweithgareddau dechrau ar gyfer gwersi yn y dyfodol, neu eu cyfuno ar gyfer gweithgaredd cwis.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Prif weithgaredd

1 Arddangoswch fap/mapiau dirgel o'ch dewis chi a gofynnwch i'r myfyrwyr a ydyn nhw'n adnabod y lleoedd. Heriwch nhw i ddisgrifio sut y gallant ddarganfod y lleoliad trwy chwilio am gliwiau ar y map ei hun. Efallai y byddan nhw'n gofyn y cwestiynau canlynol i'w hunain:

- A yw'r lleoliad ger y môr neu yng nghanol y tir?
- A yw enwau'r lleoedd yn rhoi cliw, er enghraifft, a ydyn nhw'n edrych yn enwau Albanaid, Cymraeg, neu'n rhoi cliw o ran swyddogaeth y lle?
- Pa siapiau a phatrymau naturiol sydd yno? A oes creigiau, bryniau, nodweddion dŵr?
- A yw'r math o lystyfiant yn rhoi unrhyw gliwiau?
- A oes symbolau gwybodaeth i dwristiaid ar y map?
- Pa nodweddion gwneud a ddangosir ac a yw'r siapiau hyn yn rhoi unrhyw gliwiau?
- A oes unrhyw adeiladau? Allan nhw weithio allan diben yn adeiladau?

2 Os oes angen, dewch o hyd i'r mapiau dirgel yn *Digimap for Schools* gan ddefnyddio'r cyfeirnod grid a roddir ar ddiwedd y *PowerPoint* a llacio i ddangos cyd-destun lleoliadol y lle dirgel.

3 Gofynnwch i bob myfyriwr greu ei fap dirgel ei hun. Bydd hyn yn eu hannog i edrych ar nifer o fapiau o leoedd y maen nhw wedi ymweld â nhw, er mwyn dod o hyd i un a fydd yn gweddu i'r meini prawf.

Mynd gam ymhellach

- Gofynnwch i fyfyrwyr bleidleisio dros y 12 map dirgel 'gorau'. Rhwng gyfrifoldeb i grwpiau/parau yn y dosbarth dros adolygu'r sleidiau er mwyn iddyn nhw fod yn addas ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2. A oes angen iddyn nhw newid y map? Pa gliwiau ychwanegol y dylen nhw eu rhoi? Trefnwch y cyfan ar ffurf cwis, a'i anfon at gydlynnydd Daearyddiaeth un o'r ysgolion bwydo iau. (Trefnwch hyn gyda'ch cydweithiwr yn gyntaf i sicrhau bod y dosbarth yn cael adborth).
- Gofynnwch i'r myfyrwyr greu mapiau 'go iawn' gan ddefnyddio nodweddion cadw/argraffu *Digimap for Schools*. Crëwch arddangosfa mewn man cyhoeddus yn yr ysgol.
- Trydarwch lun o'ch enghraifft gorau i'r gymuned *Digimap for Schools* @Digimap4Schools

Dolenni ar y we

- Mae gweithgareddau Mapiau Dirgel achlysurol ar flog yr Arolwg Ordnans: <http://www.ordnancesurvey.co.uk/blog/>
- Blog *Digimap for Schools*: <http://digimapforschools.blogs.edina.ac.uk/>
- Dilynwch OS Leisure ar Twitter: <https://twitter.com/OSLeisure>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*



Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Creu map dirgel

Rydych yn mynd i greu eich map dirgel eich hun i herio gweddill y dosbarth.

Ystyriwch y lleoedd rydych wedi ymweld â nhw y bydd myfyrwyr eraill wedi clywed amdanynt, neu dewiswch rywle lleol y bydd y rhan fwyaf o bobl yn gyfarwydd ag ef.

Gan ddefnyddio *Digimap for Schools*, ewch i'r lleoliad hwnnw a rhowch gynnig ar lefelau closio gwahanol o'r lle i geisio dod o hyd i fap a fydd yn rhoi cliwiau da, ond na fydd mor amlwg y bydd pobl yn gallu dyfalu'n iawn ar unwaith. Mwy na thebyg, bydd rhaid i chi edrych ar sawl lleoliad cyn i chi ddod o hyd i un rydych yn hapus ag ef.

- Yn ddelfrydol, dylai eich map dirgel ddangos ardal heb enwau lleoedd a fydd yn amlygu'r lleoliad.
- Os nad yw hyn yn bosibl, bydd angen i chi orchuddio enwau lleoedd â phanel solet trwy ddewis 'draw a fixed shape' (tynnu llun siâp sefydlog) o'r *Annotation Tools* (Offer Anodi) a dewis petryal. Gwnewch yn siwr bod tryloywder yn 0% a dewiswch liw.



- Lluniwch gliw ychwanegol a fydd o help gwirioneddol i bobl amlygu'r lleoliad.
- Pan fyddwch yn hapus gyda'ch map, defnyddiwch *Print screen* (argraffu'r sgrin) neu *PrtSc* ar eich bysellfwrdd i ddedd y ddelwedd sgrin a'i phastio yn *Paint*. Torrwch allan y darn rydych chi ei eisiau a'i bastio ar sleid *PowerPoint*.
- Ychwanegwch y testun canlynol:
 - Eich enw a'r cliw ychwanegol.
 - Lleoliad y map (rhowch enw lle a chyfeirnod grid).
- Gosodwch eich sleid fel bod y map yn cael ei arddangos ar unwaith, ond bod angen clic ychwanegol i ddatgelu eich enw a'r cliw, a chlic arall eto i ddatgelu'r ateb. Cadwch/anfonwch hwn yn unol â chyfarwyddiadau eich athro.